"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD,

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1883. [RHIF 27.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Martin Luther	241
Cysgod rhag yr Ystorm	244
Bywyd yr Iesu	245
Undodiaeth yn Sir Aberteifi	250
Y Gwir	253
Cymmanfaoedd y Mis	254
Y Cyfarfodydd Chwarterol	255
Nodynau Gwasgarog	257
Dyfyniadau allan o'r "Efelychiad o Grist"	258
Yr Ymdrech neu y Gallu sydd yn llwyddo	259
"Hyffordda dy Blentyn"	261
Manion a Hanesion	262
Marwgofion	263

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1883. [RHIF. 27.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

MARTIN LUTHER.

1483—1546.—I.

YR oedd hen ysgolfeistr yn Germani a arferai yn wastad dynu ei het i blant yr ysgol, a'r rheswm a roddodd unwaith i un a ofynodd iddo paham y gwnelai felly, oedd, ei fod yn tynu ei het nid i'r cyrff bychain ond i'r enaid mawr a allai fod ynddynt. Enw un o'r ysgolheigion yma oedd Martin Luther.

Ganwyd Martin Tachwedd 10, 1483, yr un flwyddyn â Raffael y paentiwr enwog, ac ar ddydd gwyl Fartin, oddiwrth yr hwn y derbyniodd ei enw. Trwy ddygwyddiad y cafodd ei eni yn Eisleben, lle'r oedd ei dad a'i fam wedi myned i'r ffair, a'r lle y cafodd hi ei chymmeryd yn glaf yn ddisymwth. Yr oedd eu cartref mewn pentref cyfagos o'r enw Mohra. Yr oedd Luther yn henach nâ Harri VIII., a Francis I. o Ffrainc. Yr oedd wedi dyfod i'r byd 35 mlynedd ar ol y ddyfais argraffu, a naw mlynedd cyn darganfyddiad America gan Columbus. Nid oedd ei rieni ond pobl dlodion. Mwnwr oedd ei dad, dyn gonest ac o garacter diysgog a chadarn. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth gartref gan ei dad, ac wedi hyny cafodd ei anfon i'r ysgol i Magdeburg, lle y darfu i weddw garedig o'r enw Ursula gymmeryd tosturi wrtho pan yn crwydro yr heolydd yn canu am damaid. Yn 14 oed aeth i'r ysgol i Eisenach, a threuliodd yma bedair blynedd, a chyrhaeddodd safle tra uchel mewn gwybodaeth. Yn 1501 yr aeth i brif ysgol Erfurt, lle cyrhaeddodd gryn enwogrwydd, ac yn 20 oed cafodd ei bennodi yn ddarlithydd ar wahanol gangenau athroniaeth. Yn 1505, yr oedd efe a chyfaill iddo o'r enw Alexis yn rhodiana yn y maesydd, pan y daeth ystorom o daranau ac y tarawyd ei gyfaill yn

farw yn ei ymyl. Cafodd yntau ei fwrw i'r llawr, ond heb gael un niwed. Gwnaeth hyn argraff ddwfn ar ei feddwl, ac addunedodd droi at Dduw a chyflwyno ei hunan at ei wasanaeth. Yn ol ffasiwn y dydd trodd yn fonach, ac aeth i fonachdy Sant Awstin yn Erfurt. Amgylchiad sobr oedd, a chynhyrfodd ei holl enaid i'r ystyriaeth o ba "beth yw y Bywyd hwn o'r eiddom? wedi diflanu mewn moment, wedi ei losgi fel dilledyn, a phasio i'r gwagder tragwyddol!" Ymddangosai'r byd iddo yn awr gyda'i holl bleserau a'i gyfoeth ond gwagedd, ond byd dyfodol, y byd dychrynllyd hwnw o ad-daliad ofnadwy, am yr hwn yr oedd ei dad wedi llefaru wrtho yn fachgen; Duw digllawn; enaid i'w gadw neu ei golli—dyma beth lanwai ei feddwl. Gwnaeth brawf ar yr holl ddyfeisiau monachaidd er achub ei enaid. Aethai trwy yr ystrydoedd yn cardota at y monachdŷ; cyflawnai'r gorchwylion mwyaf isel, ymprydiai, gwyliai trwy'r nos, yn adrodd gweddiau, ond heb gael heddwch i'w enaid. Blinai ei gydwybod ef fwy fwy o hyd. O'r diwedd cafodd heddwch yn addysg Crist am faddeuant pechodau. Yr hen frawd a'i helpiodd fwyaf i afael tawelwch oedd Staupitz, yr hwn a'i dysgodd yn yr athrawiaeth o ffydd yn Nuw sydd yn maddeu pechodau. Un tro pan oedd efe mewn dychryn mawr, dywedodd Staupitz wrtho, "Nid Crist sydd yn eich dychrynu, nid yw Crist yn dychrynu, dyddanu y mae Efe."*

Ar sefydliad Prif-ysgol Wittemberg gan Frederic Ddoeth, cafodd Luther, trwy gymmeradwyaeth Staupitz, ei bennodi yn athraw. Gwnaethpwyd ef hefyd yn bregethwr yr Eglwys yn y lle, ac yma cafodd y cyfleusdra i osod allan ei athrawiaeth fawr fod dyn yn cael ei gyfiawnhau trwy ffydd ac nid trwy weithredoedd. Trwy gamddeall "cyfiawnhad" a'i wneuthur yn gyfystyr ag "iachawdwriaeth;" trwy gamddeall "ffydd" a'i wneuthur yn gyfystyr â "chrediniaeth mewn athrawiaethau," mae dynion, meddai J. F. Clarke, wedi troi addysg Luther i fod yn beth gwrthun. Wrth Gyfiawnhad, meddyliai Luther, nid iachawdwriaeth yn y dyfodol, ond maddeuant yn y presenol; ac wrth Ffydd meddyliai nid cydsyniad y deall, ond ymddiried yn Nuw. Yr unig ffordd i gael maddeuant a gorphwysdra mewnol, yw ei dderbyn fel rhodd oddiwrth Dduw heb gyfryngwriaeth offeiriad nâ defod. Trwy ddyfod at Dduw ar unwaith, trwy ffydd yn ei addewid o faddeuant trwy Grist, a dybynu ar yr amlygiad hwnw o gariad at bechadur a wnaethpwyd ganddo yn Nghrist, y sicrheir yr heddwch yma i'r enaid, a'r cymmod hwn â Duw.

Cyrhaeddodd Luther y fath enwogrwydd fel athraw yn Wittemberg, fel yr oedd myfyrwyr yn dyfod ato o bob cyfeiriad, ac ystyrid ef yn

---

* Yn llyfrgell Erfurt daeth ar draws hen Feibl Lladin, llyfr nad oedd wedi weled erioed o'r blaen. Dysgodd hwn iddo rywbeth heblaw gwyliau ac ymprydiau. Bu brawd o fonach hefyd yn gynnorthwyol iawn iddo. Dysgodd 'nawr fod dyn yn gadwedig nid trwy ganu offeren, ond trwy ras anfeidrol Duw: peth llawer mwy tebyg, meddai Carlyle. Yn raddol cafodd ei hun wedi ei seilio megys ar graig. Nid rhyfedd ei fod yn parchu y Beibl, yr hwn oedd wedi dwyn y fath help bendigedig iddo. Gwerthfawrogai ef fel y dylai Gair y Goruchaf gael ei werthfawrogi gan y fath ddyn; felly trwy ei fywyd ac hyd ei farw daliodd wrtho yn gadarn a diysgog.

brif addurn y Brif Ysgol. Ar yr un pryd cyrhaeddodd enwogrwydd cyffelyb fel pregethwr.

Yn1510, o herwydd rhyw ymrysom rhwng y monachod a'r *Vicar-General*, cafodd ei anfon ganddynt i amddiffyn eu hachos yn llys y Pab. Ar yr adeg yma cafodd y cyfleusdra i weled sut oedd pethau yn cael eu cario yn y blaen yn y "Ddinas Sanctaidd."* "Bum yn hir yn Rhufain" meddai, "cyn perfformio'r offeren (mass), a gwelais ereill yn gwneuthur hyny lawer tro, ond mewn dull mor anweddaidd fel nas gallaf fyth feddwl am hyny heb flinder." Mae yn condemnio yn ddidrugaredd y brys a'r diofalwch gyda pha rai yr oedd yr offeiriaid yn cyflawni eu swydd sanctaidd, a'r modd yr oeddynt yn rhoi dadganiad i syniadau atheistaidd yn nghanol rhanau mwyaf difrifol y gwasanaeth. "Ni fynaswn am 100,000 o *florins*" meddai, "golli y cyfleusdra o weled Rhufain. Pe heb weled drosof fy hun, buaswn yn cael fy mlino rhag bod yn annghyfiawn at y Pab."

Hyd yma y mae Luther yn ymddangos yn benaf yn y cymmeriad o Eglwyswr ac Ysgolhaig, ond tua'r adeg hon y mae dygwyddiadau yn cymmeryd lle, ag ydynt yn ei dynu allan yn y cymmeriad o Ddiwygiwr, yr hwn sydd i roddi agwedd newydd ar wyneb y Byd Cristionogol.

Yn 1517, daeth Tetzel i Wittemberg mewn ffordd o fasnach, wedi ei anfon allan gan y Pab Leo X. i werthu maddeuant. Yr oedd ar Leo eisieu arian, meddai efe, at gwblhau Eglwys fawr Sant Pedr yn Rhufain. Nid oedd ei gynllun yn un newydd. Y Pab Urban II. tua 1100, mae'n debyg, oedd y cyntaf i ganiatau "maddeuant cyflawn pechodau," i'r cyfryw hyny a fuasent yn ymuno â rhyfeloedd y Groes, er rhyddhau bedd yr Iesu o ddwylaw yr Inffideliaid. Darfu i'w heffeithioldeb y tro yma arwain y Llys Pabaidd i gymmeryd y cynllun i fyny ar achlysuron ereill o lai pwys yn y dyfodol. Nad beth oedd amcan Leo, darfu i ddull ei oruchwylwyr o'i gario allan achosi cynhwrf mawr. Yr oedd iaith ac ymffrost Tetzel yn warthus ac yn anweddaidd. Haerai ei fod "wedi achub mwy o eneidiau trwy yr *Indulgences* yma nag yr oedd St. Petr wedi eu hachub trwy ei bregethu." Daliai y Cardinal Cajetan, yr hwn a bennodwyd gan y Pab i ddychwelyd Luther yn ol i'r Eglwys, ar yr angenrheidrwydd fel cam cyntaf ei gymmod, ei fod yn credu fod "un dafn o waed Crist yn ddigonol i achub yr holl fyd, a bod y gweddill a gollwyd yn yr ardd ac ar bren y groes, wedi ei adael yn etifeddiaeth i'r Eglwys, ac i fod yn drysorfa, allan o'r hon yr oedd Maddeuant (*Indulgence*) i gael ei dynu a'i ddosparthu gan y Pabau Rhufeinig."

Dywedir nad oedd y gwerthiant Maddeuant yma ar y cyntaf ond peth cymharol ddiniwed. Nid oedd ond maddeuant o droseddau tym-

---

* "Gorsedd Archoffeiriad Duw ar y ddaear! a'r hyn a welodd, ni a wyddom mewn rhan. Daeth llawer peth yn ddiamheu i'w feddwl, llawer nad oes genym yr un hanes am dano, a llawer fe ddichon nas gwyddai sut i roi lleferydd iddo. Y Rhufain yma, yr olygfa yma o ffug offeiriaid, wedi eu gwisgo nid yn mhrydferthwch sancteiddrwydd, ond mewn gwisg wahanol iawn, mae yn *ffug*. Ond beth ydyw i Luther? Dyn isel, yw efe, sut y dichon efe ddiwygio y byd? Yr oedd hyny yn mhell o'i feddwl."—*Carlyle.*

horol neu seremoniol, ac er ei sicrhau yr oedd edifeirwch a ffydd yn angenrheidiol. Defnyddid yr arian er helpu'r tlodion ac adeiladu Eglwysi; ond yr oedd cymmaint o elw yn deilliaw oddiwrtho fel yr oedd y mater erbyn hyn yn cael ei gario i eithafion gwarthus, ac fe haerid y gellid cael maddeuant am bechod trwy dalu arian. "Prynwch, prynwch, prynwch!" meddai gwerthwyr Leo, "Dewch yma, dewch yma," meddai Tetzel; "trwy ewyllys y Tad Sanctaidd (y Pab) a'r Senedd Sanctaidd yr wyf yn ymweled a'r lle hwn." Ac yr oedd yn addaw maddeuant am bob math o bechod a bai. Yr oedd aelodau Eglwys Luther yn prynu, ac yn y gyffesgell yn dywedyd wrtho fod eu pechodau eisoes wedi eu maddeu. Darfu i hyn gynhyrfu Luther yn ofnadwy. Teimlai ei fod yn fwy nag y gallai oddef. Cyfododd ei lais yn erbyn y fasnach lygredig, ac yn erbyn y dynion a'i carient yn y blaen, mewn 95ain o osodiadau, y rhai yn ol llaw a osodwyd i fyny ganddo yn un o Eglwysi Wittemberg. Gwnaeth hyny Hydref 31, 1517; a thrwy hyny o weithred creodd gyfnod newydd mewn hanes, a rhoddodd gychwyniad i nerth newydd yn llwybr gwareiddiad a dyrchafiad dyn.

CYSGOD RHAG YR YSTORM.

Mae'r tonau yn ymchwyddo a'r gwynt yn uchel sy';
A chymyl yn gorchuddio'm gauafol entrych ban;
Ac allan o'r dyfnderau y galwaf arnat Ti,
Mae'm ofnau, Och! yn fawrion, a'm nerth yn wir yn wan.

O Dduw, bydd imi 'n llywydd i'm arwain yn ddi fraw,
(A chwithau 'stormydd cedyrn dan ei reolaeth dewch;)
Amddiffyn fi rhag drygau'm bygythiant ar bob llaw,
Ac wrth y tonau dywed, "Gostegwch a dystewch."

Yn nghanol rhu ystormus gwyn donau geirw yr aig,
Mae f' enaid fyth yn pwyso ei obaith arnat Ti;
Dy ofal mawr a'th gariad diysgog fel y graig,
A'm ceidw rhag ymollwng i lyn anobaith du.

Er bod fel llong ddrylliedig heb gwmpawd ac heb lyw,
Trwy ymchwydd mawr y tonau fy mhorthladd ceisio wnaf;
Ac O, na foed i 'stormydd na gwyntoedd o un rhyw
I'm rhwystro, pan yn llawen i mewn i'r hafan af.

W. Cowper, 1779.

BYWYD YR IESU.

Y Bedwaredd Ran. Y Terfyn.

Gwers xvii. *Darllener Matt. xxi. 33—46; xxv. 1—30. Testyn, Matt. xxv. 20—21.*

Buasem yn gwybod ffaith ddyddorol a phwysig iawn mewn hanesiaeth, pe gwybyddem beth oedd yr Iesu yn awr yn dybied fuasai y dynged oedd yn ei aros ef a'i waith. Gwyddom fod y dysgyblion, yn union ar ol ei farwolaeth, yn dysgwyl y byddai iddo ddod 'nol yn fuan i'r ddaear mewn gallu a gogoniant mawr, ac i sefydlu yn fuddugoliaethus deyrnas nefoedd, gan wneyd Jerusalem y man canolog. Y dysgwyliad hwn oedd pob peth i'r Eglwys Gristionogol ar y dechreu: arbedodd y symudiad rhag cael ei ddifetha ar Galfaria, ysprydolodd a nerthodd ymdrechion boreuol y cenadon, ac y mae yn rhoddi lliw i bron bob llyfr o'r Testament Newydd. Yn awr y gofyniad y carem ni weled atebiad iddo yw, a oedd yr Iesu yn gyfranog o'r dysgwyliad hwn, neu nad oedd, neu a gyfododd Ef yn benaf o herwydd y pethau a ddywedodd Efe. Ond mae ateb llawn a phendant allan o'n cyrhaedd ni. Gallwn, fodd bynag, deimlo yn weddol sicr ar ddau bwynt. Ar un llaw, mae llawer o'r dywediadau ar y pwnc hwn a briodolir i'r Iesu, heb un sail iddynt mewn hanesyddiaeth; oblegyd maent yn union-gyrchol yn gwrthryfela yn erbyn holl yspryd ei addysgiaeth; rhaid eu priodoli i'r grediniaeth gref ag oedd yn ffynu ar y pryd y cafodd yr Efengylau eu hysgrifenu. Mae hyn yn wir, er enghraifft, yn Matt. xix. 28: Luc xxii. 30. 'Dyw hi ddim yn bossibl chwaith i gredu y darfu i'r Iesu ragddweyd helyntion y dyfodol, fel y dywedir iddo wneyd yn Matt. xxiv., Marc xiii., a Luc xxi: neu y darfu iddo arddangos ei farwolaeth fel peth angenrhaid, a hyny oblegyd fod yr Ysgrythyrau wedi proffwydo am dano, megys Matt. xxvi. 54—56: Marc xiv. 49. Ar y llaw arall, gallwn dybied yn briodol fod yr Iesu yn gyfranog o lawer o farnau crefyddol ei amserau, yn enwedig pan nad oeddent yn hollol groes i'w deimlad moesol nac i'w welediad ysprydol ei hunan. Mae yn ddigon tebyg, gan hyny, fod yr Iesu yn credu gyda holl ddynion duwiol ei wlad, y delai teyrnas nefoedd cyn bo hir, a phan gymmerai hyny le, y byddai adgyfodiad cyffredinol o'r cyfiawnion, ac adgyfodiad neillduol o ogoneddus i bawb oeddent wedi syrthio yn yr ymdrech i sefydlu teyrnas nefoedd ar y ddaear. Delai y rhai hyn i gyd o "fyd y cysgodion," yr hwn a dybid oedd yn sefyll rywle dan y ddaear; ond dysgwylid i Enoch ac Eliseus, ac feallai Moses hefyd, i ddyfod lawr o nefoedd fry, lle y trigai yr Arglwydd a'i holl angelion, a lle y caniateid i nifer fechan o ddynion sanctaidd a dewisol i dreulio yr amser rhwng eu marwolaeth a sefydliad y deyrnas ar y ddaear. Mae yn eithaf tebyg hefyd fod yr Iesu yn credu y cawsai yntau dreulio yr amser yma yn y nefoedd; a thrwy ei fod yn credu mai efe oedd y Messeia addawedig, yr oedd yn naturiol yn dysgwyl y byddai iddo, ar

ol dod 'nol i'r ddacar, gymmeryd ei le priodol fel pen dynol y deyrnas nefol.

Dengys y cyfan hyn na ddylid dim edrych ar yr Iesu fel penboethyn, nac fel awdwr unrhyw rith a thwyll, os y darfu iddo yn ychwanegol at ragweled ei farwolaeth, ddysgu ei ddysgyblion i ddysgwyl ei ddychweliad buddugoliaethus yn mhen ychydig flynyddau. Mae y gred mewn bywyd dyfodol yn cymmeryd ffurfiad gwahanol iawn mewn gwahanol oesoedd; a mabwysiadodd yr Iesu y ffurf oedd yn fwyaf cyffredin yn ei amser, a chyssylltodd hi â'r genadwri oedd Duw wedi rhoddi iddo, ac â'r ffydd berffaith oedd ganddo y byddai Duw i ddwyn pob peth o dde yn y diwedd. Wrth gwrs, yr oedd camsynied, dim ond yn y manylion, nid yn hanfod y dysgwyliad; ac mae y prawf o hyn yn gorphwys yn y ffaith y gallwn ni o hyd arfer iaith Crist, gweddio yn ngeiriau ei weddi, a theimlo pwys a chymhwysiad ei rybuddion a'i anogaethau, er fod ffurf ein cred ni am fywyd dyfodol yn dra gwahanol. Y prif wahaniaeth yw hyn; yr ydym ni yn edrych yn mlaen at ddydd ein marwolaeth fel dygwyddiad agos ond ansicr, amser y cawn ni gwrdd â'n hanwyliaid; ond yr ydym yn dysgwyl am sefydliad teyrnas nefoedd ar y ddacar yn unig yn y dyfodol pell, pan fyddo dynion yn araf wedi dysgu gwneyd ewyllys Duw yma fel ei gwnelir yn y nefoedd. Cymmerwn 'nawr ddammeg y Morwynion call a ffol, a dammeg y Talentau, ac heb honi fod y gwersi a gyfleir ynddynt yn yr un ffurf yn gywir â phe dodem ni hwynt y dydd presenol, gwelwn sut y gallwn gymhwyso y gwersi hyn at ein hangenion a'n hamseroedd ein hunain. Os nad ydym yn barod ar gyfer cyfleusderau pan y deuant, allwn ni ddim cymmeryd mantais o honynt, a chollir hwynt; mae y drws wedi ei gau, er nid o angenrheidrwydd am byth. Yn ddiau, fod cyfeiriad yma at angeu, y cyfwng mwyaf yn ein bywyd; ac mae bywyd, yn nghyd â'i holl gyfleusderau, yn gymmaint o ymddiriedaeth i gyfrif am dani ar ol angeu â phe dysgwyliem ein Harglwydd i ddod 'nol atom ar ol ychydig o absenoldeb. Yr oedd gan y dysgwyliad olaf hwn effaith ryfeddol i awchlymu zel y Cristionogion boreu: dylai ein cred ein gwneyd ninau yr un mor ddifrifol a phryderus i glywed y gair, "Da, was da, a ffyddlon."

Gofyniadau ar Wers XVII.

1. Darluniwch ddysgwyliadau y Cristionogion boreu o barthed i ddychweliad eu Meistr, a dangoswch pa mor bell oedd yr Iesu yn debyg o fod yn gyfranog o'u golygiadau.

2. Dangoswch fod y gred mewn bywyd dyfodol y meddai'r Iesu arni, yn gwahaniaethu mewn ffurf yn hytrach nag mewn hanfod oddiwrth ein cred ni.

3. Eglurwch ddammegion y Deg Morwyn a'r Talentau, fel y deallid hwy gan y Cristionogion boreu, ac fel y deallwn ni hwy yn awr.

Gwers xviii. *Darllener Matt. xxvi. 1—30. Testyn, Matt. xxvi. 13.*

Mae yr amgylchiad a gymmerodd le yn nhy Simon y gwahanglwyf, yn lled debyg i'r un y ceir hanes am dano yn Luc vii. 36—50, ond mae ei ystyr fewnol yn wahanol iawn. Yn y naill nid oedd yr enaint ond offrwm a ddygwyd gan druan edifeiriol at draed un a ystyriai yn deilwng o'r rhodd fwyaf gostus. Ond yn y llall yr oedd yr enaint a dywalltwyd ar ben yr Iesu yn ddiamheu yn golygu ei gyssegriad fel y Crist neu y Messeia; ac yr oedd y digofaint a ddangosodd y dysgyblion i'w briodoli i fesur helaeth i'r siom a deimlent mewn perthynas i'w gobeithion am y Messeia. Pe buasai'r Iesu wedi dweyd yn gyhoeddus mai efe oedd y Crist, ni fyddai un eneiniad yn rhy gostfawr: ond yn awr gan fod pob peth yn myn'd o chwith, gwastraff o'r mwyaf ydoedd: yr oedd y wraig yn cymmeryd gormod o lawer arni ei hunan. Gallwn yn hawdd ddirnad ei syndod a'i blinder pan welodd sut y derbyniwyd ei rhodd haelionus, a gallwn werthfawrogi y tynerwch â'r hyn y dyddanai'r Iesu hi. Ac yma y mae gwers i ni gyd, sef cydnabod y da sydd mewn amcanion cariadus, er nad ydynt yn cael eu cario allan yn y ffordd a ystyriwn ni yn fwyaf priodol.

Cyrhaeddodd y siomedigaeth a deimlai yr holl ddysgyblion ei uchelfan yn Judas Iscariot. Yr oedd efe yn un o'r Deuddeg, ac yr oedd, digon tebyg, wedi aberthu llawer dros yr achos, gan wneyd y cyfan mewn llawn hyder y cawsai ei dalu 'nol ar ei filfed yn y deyrnas oedd ar ddyfod. 'Nawr y gwelai nad oedd fawr siawns y cawsai ei freuddwydion eu sylweddoli: yr oedd yr Athraw yn pallu cymmeryd y mesurau oeddent yn anhebgorol angenrheidiol i lwyddiant. Teimlai Judas yn ddiau ei fod wedi cael ei dwyllo'n hollol yn nghylch yr Iesu, ei fod wedi cael ei *cheato* a'i fradychu; ac yn llawn digter at y fath driniaeth, yr oedd yn ddigon brwnt i fynu peth tâl am ei golledion trwy fradychu yr Athraw oedd efe wedi ei gamddeall mor ddychrynllyd. Dyma yr unig ymgais at eglurhad rhesymol o ymddygiad Judas a ellir roddi.

Rhybuddiodd gwelediad llym yr Iesu ef o'r perygl newydd hwn, ac ymddengys iddo dreio effaith apel bersonol at ffyddlondeb ei ddysgyblion, pan yr oeddent wedi ymgynnull at eu gilydd i fwyta o'r pryd diweddaf a gawsant gyda'u gilydd. Os y darfu iddo gyhuddo Judas yn bendant o'r bwriad, mae'n debyg iddo siarad yn rhy isel i ereill ei glywed. Pa fodd bynag, apeliwyd yn ofer, a chyn hir ymlusgodd Judas yn llechwraidd allan i gwblhau y parotoadau ar gyfer ei fradwriaeth gywilyddus.

Yr oedd y pryd bwyd hwn o nodwedd bwysicach nâ'r cyffredin. Yr oedd, ac y mae etto, i'r Iuddewon yn ddefod grefyddol fwyaf gyssegredig, yr hon a gedwid er mwyn coffhau am eu gwaredigaeth o gaethiwed yr Aifft. Yr oedd gan yr Oen, y llysiau chwerwon, y bara croyw, y cwpan gwin, y rhai oedd holl aelodau gwrywaidd pob teulu yn cwrdd â'u gilydd i gyfranogi o honynt, arwyddocad ysprydol i ddisgynyddion y sawl a ddilynasant Moses trwy y Mor Coch, ac yr oeddynt yn eu hadgofio o'r pethau mawrion a wnaeth yr Arglwydd yr adeg hono er eu mwyn. Ond o hyn allan mae ystyr newydd yn gyssylltiedig â'r

pryd cyssegredig hwn, ac y mae i goffhau amgylchiad arall yn meddwl pob dysgybl Cristionogol. Dyma'r achlysur olaf a ga'dd yr Iesu i wneyd dim er gosod ei yspryd mewn ffurf allanol. Pryd hwnw neu byth y gallasai wneyd neu ddweyd rhywbeth, rhoddi rhyw gyfarwyddyd, neu fynegu rhyw ddymuniad, y byddai ei gyflawni yn rhoddi help i'w ddysgyblion mewn amser diweddarach. Yr ydym i gyd yn parchu dymuniadau ac yn anwylo geiriau rhywun ar fin marw, ac yr oedd hyn yn wir am y dysgyblion, (y rhai, er gwaethaf eu holl ffaeleddau, oeddynt o galon wresog) pan yn gwrando ar addysgiadau olaf y Proffwyd o Nazareth. Ac yn yr Efengylau, ac yn foreuach fyth yn un o Epistolau Paul (gwel 1 Cor. xi. 23—26), mae genym brawf digonol y darfu i'r Iesu sefydlu yr ordinhad hono a elwir yn gyffredin yn Swper yr Arglwydd, neu y Cymmundeb, y darfu iddo felly roddi ei yspryd mewn defod allanol, yr hon y byddai i'w ganlynwyr gadw fel gwasanaeth crefyddol, i'w nerthu hwy a gras dwyfol, a gwasgu arnynt y ffaith iddo ef farw dros achos mawr, y byddai iddynt hwy lafurio wrtho wedi iddo ef fyned. Mae genym hefyd brawf fod y ddefod yma wedi ei chadw yn aml ac yn ffyddlon gan yr Eglwys foreuol, a'i bod hi o werth anmhrisiadwy er uno y dysgyblion wrth eu gilydd a'u gwneyd i deimlo undeb yr yspryd, er dal i fyny eu gobeithion a dyrchafu eu chediadau. Oddiar hyny, mae y gwasanaeth wedi dyfod yn ganolbwynt llawer coelgrefydd ddiraddiol, a phenboethni annyoddefgar. Ond 'dyw hyn ddim yn rheswm dros ei gwrthod hi, os gallwn ni o hyd ei chadw hi yn ei chymmeriad a'i symlrwydd cyntefig, yn ddefod sydd yn dwyn bywyd a marwolaeth yr Iesu yn nerthol o flaen ein meddwl, gan wneyd yn fwy argraffiadol wasanaeth ymroddgar ei fywyd, ac hunanaberth annghymharol ei farwolaeth. Dylem lawenychu am ein bod yn gallu cadw ar gyfer yr amcanion crefyddol puraf ddefod sydd wedi bod yn fywyd ac yn faeth i amrywiol gangenau Eglwys Crist.

Gofyniadau ar Wers XVIII.

1. Adroddwch yr amgylchiad a gymmerodd le yn nhy Simon y gwahanglwyf: eglurwch ei ystyr, a rhoddwch ei wers foesol ddiweddar.
2. Rhoddwch yr esponiad goreu medroch o gymmeriad Judas Iscariot.
3. Beth yw dechreuad ac ystyr y sefydliad a adnabyddir 'nawr wrth yr enw Swper yr Arglwydd.

Gwers xix.—*Darllener Matt. xxvi. 30—56, gan adael allan adnod 32. Testyn, Matt. xxvi. 41.*

Gellir ystyried pedair awr ar hugain olaf o fywyd yr Iesu fel drama mewn pum' act. Y cyntaf yw y Swper y buom yn ceisio ei desgrifio yn y wers flaenorol. Mae yr olygfa yn ymsymud i lethrau Mynydd yr Olewydd, lle yr ymneilldua yr Iesu a'i ddysgyblion i geisio man unig tawel, i fod yn ddyogel rhag ymosodiadau, oblegyd wyddai neb ond y

douddeg am yr hwn oedd mewn cyfyngder yn ngardd fechan Gethsemane. Ac yn awr mae helbul yr Iesu yn cyrhaedd ei eithafnod. Teimlai yn fwy nag erioed fod awr ei farwolaeth yn agoshau, a gwel y ca ei ddysgyblion eu gwasgaru fel defaid heb arnynt fugail. Fel arfer, Pedr yw y blaenaf yn ei honiad hyderus, a rhydd gyfleusdra i'r Iesu i yngan ei broffwydoliaeth fythgofiadwy am wadiad Pedr: yr oedd y dysgyblion wedi blino: eu llygaid wedi trymhau: teimlent yn gysglyd iawn. Nid oedd hyd y nod y tri agosaf ato, a'r rhai oedd yn fwyaf anwyl ganddo, ddim mewn cywair i roddi iddo un help. Yr oedd ei enaid yn drist hyd angau. 'Doedd dim modd cysgu i un yn ei gyflwr e'. Byddai'n falch i gael cydymdeimlad a chymhorth yn ystod oriau annifyr y nos, ond 'doedd neb yn agos i weini hyny iddo. Mae rhai pobl yn methu deall sut oedd yr Iesu yn dyoddef y fath loes ar yr adeg hon, yn enwedig os oedd yn sicr o fuddugoliaeth ddiweddaf ei achos. All ond ychydig o ddeiliaid yr Ysgol Sul ddeall y pwnc hwn yn drwyadl; ac ni wnawn ond awgrymu iddynt fod y geiriau a arfera'r Iesu er mwyn esgusodi lludded y dysgyblion yn egluro ei gyflwr ei hunan, "Yr ysprydsydd barod, ond y cnawd sydd wan." Yr oedd ei ffydd ysprydol yn ddisygl, ond ymdrech ddychrynllyd ydoedd i drechu braw a llwfrdra ei natur is. Fe allai mai dyma y tro cyntaf yn ei fywyd y teimlai'r Iesu fod ei ewyllys ef, hyny yw, ei ddymuniad naturiol, yn wahanol i eiddo ei Dad Nefol. Allasai efe ddim gweled *pa'm* yr oedd hi'n angenrheidiol iddo fyned dan y fath ddarostyngiad a'r fath drueni dychrynllyd, a gadael ei waith i bob ymddangosiad yn fethiant diobaith. Sut y gallai y gwaith hwn gael ei gario'n mlaen gan ddysgyblion na allent wylio un awr gyda ef.

Yn yr ychydig eiriau o weddi sydd wedi ein cyrhaedd, y rhai, ni allwn feddwl, y darfu i'r dysgyblion glywed cyn iddynt gysgu, gallwn sylwi ar ddau beth sy'n eu gwneyd yn gysgod o gymmundeb rhwng dyn a Duw. Y cyntaf yw cymmeriad syml, uniongyrchol, agored a dibetrus ei ymddynesiad at ei Dad Nefol. Y peth mwyaf naturiol yn y byd i'r Iesu oedd, tywallt allan gerbron Duw yr ehedadau a'r hiraeth ag oedd yn llanw ei enaid. 'Does dim rhithyn o amheuaeth gyda golwg ar effeithioldeb gweddi. Nid yw'r Iesu'n gofyn a yw hi'n dda i weddio, yn fwy nag yw hi'n dda i fwyta pan ar newynu. Plentyn ymddiriedgar yw, yn ymddynesu at Dad tyner a chariadus: y gwefusau yn llefaru o helaethrwydd y galon: mae y cyfan yn gymmyrch naturiol y bywyd. Yr ail beth yw, fod yr holl dywalltiad rhydd yma o'r meddyliau a'r dymuniadau sydd yn llanw ei enaid yn cael ei lywodraethu o hyd gan deimlad dyfnach, yr hwn sy'n tyfu yn raddol yn gryfach gryfach, ac o'r diwedd yn meddiannu ei holl feddwl, y teimlad a fynegir yn y geiriau, "Gwneler dy ewyllys."

'Does dim yn yr Efengylau yn fwy tarawiadol na'r cyferbyniad rhwng agwedd yr Iesu cyn yr awr weddi hon—ei enaid yn drist, yn crefu am gydymdeimlad dynol, yn eilio rhag y cwpan chwerw—a'i agwedd wedi hyn, pan wyneb yn wyneb a'r perygl ac yn ngafael ei elynion, pryd hyny mor dawel a digyffro, mor urddasol a mawreddog. Yr oedd Judas wedi gwneyd ei waith: bradychwyd ei ymguddfa: nodir

y Meistr allan i'r milwyr gan gusan bradwr. 'Does dim ol gwendid i'w weled 'nawr. Yn ol Luc xxii. 48. Mae ganddo un gair marwol i Judas, ac y mae yn ymddadleu a'i clynion, yn gofyn pa'm y daethant allan i'w ddal fel lleidr ar hyd nos, pan y gallent gael gafael ynddo bob dydd wrth ddysgu yn gyhoeddus yn y deml. Y gwir ateb i hyn yw, na feiddiai yr offeiriaid ei ddal ef yn gyhoeddus, ac oni bai iddynt gael cymhorth Judas, gallasai yr Iesu fyned o'r ddinas gyda'r torfeydd ar ol y pasc, a gallasai y croeshoeliad fel hyn gael ei rwystro am byth.

Bydded i'r athraw nodi allan i'w ysgolheigion sut mae holl werth yr olygfa hon, a'n parch ni at ymddygiad yr Iesu o dan yr amgylchiadau hyn, yn ymddibynu ar ein bod yn edrych arno fel dyn gwirioneddol, naturiol, ddim yn fwy abl i weled yr oll a allai ddeilliaw oddiwrth ei farwolaeth ar y groes na rhyw ddyn arall. Fyddai dim byd yn *hynod* o odidog yn ei gymmeriad pe byddai yn meddu ar wybodaeth Ddwyfol yr hon a'i galluogai i ddarllen y dyfodol, fel yr ydym ni yn darllen y gorphenol; oblegyd dim ond y gwaelaf o ddynion a arswydai ddyoddef yr hyn ddyoddefodd yr Iesu pe gallai weled y canlyniad. Dangoswyd dewrder sanctaidd wrth ymddiried i arweiniad yr Ysprydd Glan, ac fel hyn y dangosodd Mab y Dyn ei fod hefyd yn Fab Duw.

Gofyniadau ar Wers XIX.

1. Adroddwch beth ddygwyddodd i'r Iesu oddiar y Swper olaf hyd yr amser y "gadawodd yr holl ddysgyblion Ef, ac y ffoisant."
2. Pa ddau bwynt y dylid sylwi yn arbenig arnynt yn ngweddiau yr Iesu yn ngardd Gethsemane?
3. Pa'm oedd gwasanaeth Judas mor werthfawr i'r offeiriaid?

J.H.D.

UNDODIAETH YN SIR ABERTEIFI.

Yn ol y *Genedl Gymreig* am fis Mawrth diweddaf, darfu i'r Parch. T. C. Edwards, Prif Athraw Coleg Aberystwyth, a Methodistiad dilwgr a dysgedig, pan yn siarad ar Berson Crist mewn cyfarfod oedd newydd gael ei gynnal yn y dref uchod wneuthur y sylw canlynol:—"Yr ydym wedi arfer dweyd nad oes perygl i ni oddiwrth Undodiaeth. Yr wyf yn ofni ein bod ni yn barnu Undodiaeth oddiwrth sefyllfa yr Eglwysi yn ngwaelod y Sir hon, a dywedir nad yw Sosiniaeth yn ymledu felly." Hyny yw, fel yr wyf fi yn deall y geiriau, nid yw Sosiniaeth yn ennill tir a barnu wrth sefyllfa yr Eglwysi yn ngwaelod Sir Aberteifi. Dylasai y gwr Parchedig fod yn gwybod y gwahaniaeth rhwng Undodiaeth a Sosiniaeth, neu os oedd yn gwybod ni ddylasai eu cymmysgu fel hyn. Felly, yn ol barn Mr. Edwards, mae sefyllfa yr Eglwysi Undodaidd yn ngwaelod y Sir yn lled isel a drwgargoelus, os nid yn hollol anobeithiol! Yr ydwyf fi fel un yn gwingo dan ei

farn. Beth yw barn yr Eglwysi hyn am danynt eu hunain? At y sylw uchod o eiddo Mr. Edwards ychwanegaf yr ymddyddan canlynol a gymmerodd le rhwng dau weinidog parchus perthynol i'r Independiaid, wrth ddychwelyd o Gymmanfa Flynyddol yr Enwad rai blynyddau yn ol. Yr oeddent yn dygwydd myned heibio tri neu bedwar o gapeli Undodaidd heb fod yn neppell oddiwrth eu gilydd, a'r unig gapeli braidd a allent weled yn y cwr hwnw o'r wlad am gryn bellder. Yr oedd un o'r gweinidogion yn gyfarwydd â'r ffordd ac yn gwybod rhyw ychydig o hanes y gymmydogaeth, a'r llall yn ddyeithr, ond yn un o'r sêr mwyaf eu maintioli yn ffurfafen Independia—yn bâb bychan o ran ei awdurdod a'i ddylanwad ar yr enwad. Mae y blaenaf o'r ddau yn fyw, ac erbyn heddyw yn un o offeiriaid parchusaf a mwyaf poblogaidd *Eglwys Loegr yn Nghymru*, a'r llall wedi teithio'r llwybr ar hyd yr hwn ni ddychwela. "Pwy dŷ cwrdd yw hwn?" gofynodd Mr. R. "Tŷ cwrdd yr Undodiaid," atebodd Mr. I. "Hawdd gwybod," meddai Mr. R., "nad oes fawr llewyrch ar yr achos yn y fan hon oblegyd mae'r borfa yn tyfu'n lâs ar y llwybrau hyd at y drysau." Ychydig nes yn mlaen dyma gapel arall yn y golwg. "Pwy enwad bia'r capel hwn?" gofynodd Mr. R. drachefn. "Yr Undodiaid," atebodd Mr. I. "'Does yma chwaith fawr o arwyddion bywyd," sylwodd Mr. R., "oblegyd mae'r ffenestri yn fawlyd dros ben." Wedi myned rhagddynt dipyn yn mhellach wele gapel arall. "I bwy enwad y perthyn hwn?" gofynodd Mr. R. "Yr Undodiaid sydd yn berchen ar hwn etto," meddai Mr. I. Dim ond mwngial wnaeth Mr. R. y tro hwn, oblegyd nid oedd yn ddigon agos i weled na'r llwybrau na'r ffenestri. Yn mlaen â hwy a dyma gapel etto, y pedwerydd yn awr, yn gwynebu'r heol. "Wel, Mr. I.," gofynodd Mr. R., "Pwy blaid o ddynion sydd yn arfer cyrchu i'r capel hwn?" "Undodiaid," atebodd Mr. I. "Wel," meddai Mr. R. o'r diwedd, "Diawl a gotto'r Undodiaid." Tebyg mai *amlder* y capeli oedd yn cynhyrfu yspryd yr hen frawd duwiol hwn oblegyd yr oedd y drych oedd arnynt, yn ol ei dyb ef, yn tystiolaethu mai ychydig oedd llwyddiant yr achos yn y parthau hyny o'r wlad. Felly, Mr. Golygydd, a darllenwyr Yr Ymofynydd yn gyffredinol, dyma'r olwg a gymmer Mr. Edwards ar yr achos Undodaidd yn Ngheredigion, ac y mae'r achos yn Ngheredigion yn ogystal ag mewn Siroedd ereill yn Nghymru, o leiaf nid ydyw ddim gwaeth er mwyn peidio bostio ond mor lleied ag y medraf. Dyma'r olwg oedd y Parch. Mr. E. yn gymmeryd arno, a dyma'r olwg, digon tebyg, a gymmer yr *Orthodox Party* yn gyffredinol arno. Yr wyf yn gofyn i bob Undodwr a ddarlleno y llinellau hyn, A ydyw yr olwg hon yn iawn? Ai dyma gyflwr ein hachos mewn gwirionedd? Yr wyf yn gofyn o ddifrif; gosoded cyfeillion y gofyniad at eu calonau. Gall fod llawer o'r Undodiaid yn twyllo eu hunain yn mherthynas i'w hachos—yn tybied ei fod yn iachach ac yn gryfach nag yw. Fel mae'r meddyg weithiau yn gwybod yn well nâ'r claf y perygl y mae ynddo, —y claf efallai yn credu ei fod yn gwella, a'r meddyg yn gwybod ei fod yn marw. Felly dichon dan ryw amgylchiadau fod ein gwrthwynebwyr yn gwybod yn well nâ ni ein hunain yn mha gyflwr yr

[illegible] y tonau yma y mae yn peidio hollol anwybyddu eu bart ac eraill. Dywedodd Burns—

> "Oh wad some power the giftie gie us
> To see ourselves as others see us."

Dewy ddyfyn ernam am ddiwedd trwy wybodaeth ein gwendidau ysgafnhau y gwaith sy tryddan nad peth yn ein gadael hi eraill.

Mae amser i Cadwaladr wedi ei ddod y "gifts" sydd yr gras i [illegible]. Dr Parkes gwendidau Americaeiddiad yn dawedodaur tra Llundain yna a Cadwaladr Cymraeg a berodd ac eraill yn parhau i bod ychydig mewn trwy hod wrthwyneb yr Cadwaladr yn y wlad non ac ydyn ddaw yr Berydd. Dewiyn y Dr. dysgeidiaeth Cadwaladr, yn y wlad a dwedd yn ddiwedd, dan gwneuw, ac ar ddyn y byd, gan nad bod llaeth i bobl. Goddeg pryw pobau yn y wlad non. Mae llawer yn anfodlon ddim o berwydd mae pobau a dywedodd. Y ei ar a [illegible] wa fod y Dr. i radiad yn gamsyniad yn y mae *pobau* pnau ac nad yw yr arwyddion mor anfedrad ag y tyna ei ei bod. Cadwaladr [illegible] mae [illegible] mewn [illegible] dwedaur o'r *Jacobiaeth* (Dr Parkes) [illegible] yn yr nos yr oedd yr awdur yn tynu amsoll [illegible] from [illegible] Cadwaladr yn mae o'r hagwedaau [illegible]. Dr [illegible] yn [illegible] [illegible] y fach [illegible] yn yr *Jacobiaeth*, [illegible] mae y papyr hawr [illegible] ar y [illegible] ar [illegible] yn [illegible] o'r fach.

Mae *Christian* [illegible] yn y [illegible] gan [illegible] ei ein pamau y derydd Cadwaladr [illegible] [illegible]. Y mae ond oed yn gwaed rhai argoelion [illegible]. Mae [illegible] y [illegible] mewn [illegible] *Life* mae yn gwerthu [illegible] ac ar mae yn ddim pryd hawr pryd ei weled mor [illegible]. [illegible] mae yn [illegible] yn [illegible] Cadwaladr [illegible] yn [illegible] ac yn [illegible] o fod. Am yr [illegible] Cymraeg, mor [illegible] ac yr wyf yn [illegible] [illegible] [illegible] yn y [illegible] [illegible] yn [illegible] Cadwaladr i fyw [illegible] [illegible]. Mae wedi [illegible] yn [illegible] [illegible] [illegible] ac eraill y [illegible] [illegible] yn [illegible] ac [illegible] [illegible] [illegible]

dynion yn rhwystro llawer i ddywedyd yr hyn y maent yn feddwl. Nid felly y dylai hi fod, ond "llwyr ddirmygu mil yn gwgu." Yr wyf yn teimlo fy hunan yn awr yn cael fy nghynhyrfu bob mymryn; ac os ysgrifenu a wnaf, nid sidanaidd neu melfedaidd fydd yr iaith; ond ysgrifenaf nes dwysbigo llawer trwy ddynoethi marweidd-dra cywilyddus yr Undodiaid yn nghyd â llawer diffyg arall a berthyn iddynt ag sydd yn gwasgu fel yr hunllef ar eu hachos. Rhaid dihuno os nad yw yn rhy ddiweddar, ac yr wyf yn credu nad yw. Rhaid defnyddio'r gyllell os yw'r cancr wedi gafaelu.

Mae genym gapeli hardd a chyfleus ddigon yn y rhan fwyaf o fanau trwy garedigrwydd cymmydogaethol a pheilenig. Os yw Mr. Edwards a'i gyffelyb yn barnu yn gywir, pa beth ddaw o honynt? Gadewir yr allorau, ac aiff y tân yn niffodd! Mae capel newydd yn Llanbedr, capel newydd yn Cwrtnewydd, capel newydd eang yn y Llwyn, capel newydd yn Dowlais, a chapel newydd yn cael ei godi yn Llandyssul. O ran hyny mae y rhan fwyaf o'n capeli o adeiladaeth ddiweddar. Os yw yr achos Undodaidd yn edwino, eiddo pwy fyddant? Er ein gwatwar, a gaiff ein gelynion byth yn eu balchder floeddio allan "Dy sanctaidd ddinasoedd sydd anialwch; Sion sydd yn ddiffaethwch, a Jerusalem yn annghyfanedd?" Na, na; "Deffro, deffro, gwisg dy nerth, Sion; gwisg wisgoedd dy ogoniant, sanctaidd ddinas Jerusalem."

JEREMIAH.

Y GWIR.

Tywallted glan ddoethion angylion y wawr,
I enaid a chalon holl lwydion y llawr,
Y Gwir gloyw'n gadarn, er sarn, ac er sen,
Mewn geiriau mwyn, dyddan, yn lân, a di-len.

Y celwydd sy'n cilio, gan floeddio yn flin,
Yn ngwyneb goleuni, can's drysni mae'n drin;
O ganol y goelcerth, yn brydferth ei bryd,
Y Gwir ddaw yn burach a harddach o hyd.

E' lifa dedwyddwch, a heddwch mwyn, hir,
O'r ddawn lân, arddunel, ragorol y Gwir;
Ei tharddiad sy'n nefol, a breiniol ei braint,
Llawn bywiol felusion gysuron i'r saint.

Os coed, gwair, a sofl, fydd muriau'n tŷ main,
Tan prawf y dydd ola' lwyr ysa y rhain.—
A ninau'n annoethwyr gofleidwyr, yn llwm
Drwy'n mawr esgeulusdod, dan drallod yn drwm.

Ar sail gref goleufarn, lwyr gadarn y Gwir,
Adeiliwn ein pebyll o ddeunydd glan, pur,—
Maen iawnder, a gwiredd, yn nghariad yn nghyd,
A safant dân prawydd, a barnydd y byd.

CYNONWYSON.

CYMMANFAOEDD Y MIS.

YN ystod y mis cynnaliwyd cymmanfaoedd pwysig gan yr Eglwyswyr, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr, ac yn Nghymru gan y Methodistiaid. Daliai yr Eglwyswyr fel arferol yn dyn ar bwysigrwydd y got ddu, y cadach gwyn, a'r offeren-grys, ac ar "awdurdod" yr Eglwys; a llefarent yn hollol fel pe byddai llais yr Eglwys yn gyfystyr â llais Duw, gan annghofio, dybygwn, ein bod yn byw yn y 19eg ganrif ac nid yr 16eg. Mae honiadau yr Eglwys yn ddigon i godi cyfog ar greadur rhesymol. Os hynyma yw ffrwyth addysg offeiriadol, yr Arglwydd a'n gwaredo rhag cael llawer rhagor nag sydd o hono yn Nghymru. Os am yr ysbryd cosmopolitan rhaid ini chwilio i gyfeiriadau ereill am dano. Daeth llawer o bynciau dan sylw, ond ychydig lefarwyd ag oedd er adeiladaeth nac er addysg i neb y tu allan i'r "gorlan gyssegredig." Yn y cymmanfaoedd ereill yr ydym yn cael ein hunain mewn awyrgylch mwy cynwynol. Cawn yno o leiaf ddynion fel ni ein hunain, ac nid dosparth o fodau wedi eu dyrchafu trwy ryw hocus pocus esgobaethol i safle uwchlaw cydymdeimlad a mudiadau ac ymdrechion lluoedd cyffredin y llawr. Fe wyr yr offeiriaid, fe ddichon (os nad ydynt wedi annghofio), fwy o Latin a Groeg, ond ymddengys i mi fod yn mhlith yr enwadau fwy o brofiad o angenion dynoliaeth. Un o'r Bedyddwyr sydd yn dwyn ar adgof eiriau Cromwell, geiriau na fyddai yn un niwed i rai o'r offeiriaid eu cyfleu at eu calonau: "I entreat you, my brethren, I entreat you, by the mercies of God to remember that it is possible that sometimes you may be mistaken." Ac un arall o'r un corff parchus sydd yn ateb i un a ddywedodd wrtho yr ydym yn byw mewn oes o gyfnewidiadau, "Felly y dywedodd Adda wrth Efa pan yr aethant allan o ardd Eden," gan awgrymu, dybygwn, fod pob oes yn gyfnewidiol. Ein dyledswydd ninau yw ceisio ymgyfaddasu at y cyflwr newydd. Nid yw gwisg y bachgen 16eg yn ateb i'r dyn 21ain. Mae Dr. Fairbairn yn ei araeth ardderchog o flaen Cymmanfa yr Annibynwyr yn agos iawn i'w le, dybygwn, o ran ysbryd ac o ran syniad, er nad ydyw yntau mor galonog ag y carem iddo fod. Nid yw yr oes y cwbl ag y dylai fod wrth gwrs, neu ni byddai lle i wella. Y pwnc mawr yw a ydyw ar lwybr gwelliant, ac a ydym ninau yn ceisio helpio neu yn rhwystro ei chynnydd. Dyma rai o sylwadau Dr. F., "Nid oes neb dynion yn gymmaint pechaduriaid â'r cyfryw hyny a dybiant eu hunain yn seintiau perffaith." "Dylai yr Eglwys fod y mwyaf blaenfynedol o

bob cymdeithas, ac ar y blaen mewn pob math o ddaioni. Ei lle yw nid ar ol yr amser, ond o flaen yr amser. Dylai arwain ac nid dylyn y Wladwriaeth." "Rhaid chwilio hawl Cristnogaeth i fodolaeth, nid yn yr hyn y mae wedi ei wneuthur, ond yn yr hyn y mae yn alluog i wneuthur." "Nid oes yr un gelyn penach i ffydd nâ'r dyn sydd yn cashau meddwl rhesymol fel pe byddai ddyfais Satan, ac nid rhodd Duw." Gwrandawed Cymru ar hynyma. Yr ydym ni wedi bod yn ceisio dywedyd rhywbeth tebyg i hyn am flynyddau. Yn y gymmanfa Fethodistaidd a gynnaliwyd yn Mhontfaen cyffyrddwyd à phwnc y dydd—sef addysg uwchraddol, ac awgrymwyd peth oedd llawer yn anhyspys o hono yn flaenorol, sef fod y Corff wedi bod yn wastad ar y blaen mewn cyssylltiad à phynciau addysg. Yr oeddwn i wedi arfer meddwl fod yr amlafrif o'r corff, nad beth eu rhagoriaethau ereill, hyd yn ddiweddar, yn wrthwynebol i'r hyn a elwir yn addysg fydol, ac yn dysgwyl i'w gweinidogion ddybynu ar yr Yspryd. Maent ar y blaen y tro hwn, ac wedi bod yn ystyried y pwnc o sefydlu ysgoloriaethau enwadol. Gobeithiwn na fydd yr enwadau ereill yn hir cyn myned ar eu hol. Gwnaethpwyd cyfeiriad hefyd at gyfansoddiad y Coleg newydd yn Nghaerdydd—nad yw yn gwbl o nodwedd dderbyniol i fwyafrif Cymru. Mae perygl i lywodraethiad y Coleg syrthio i ddwylaw Eglwyswyr; oblegyd dyweder a ddyweder am ryddfrydedd rhai personau mewn cyssylltiad â'r Eglwys, mae y spectol eglwysig yn un na ellir byth gweled trwyddi yn naturiol, tafla'r lliw enwadol ar bob peth.

S. N. S.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Cynnaliwyd yr uchod yn y Nottais, Mercher a'r Iau, Hydref y 3ydd a'r 4ydd. Cafwyd cynnulliadau lluosog, yn enwedig nos Iau, pan yr oedd y capel yn orlawn. Yr oedd yn bresenol, heblaw y gweinidogion ag y mae eu henwau isod, y Parchn. — Thomas (Methodist); a — Walker (Annibynwr), Porthcawl; hefyd torf o gyfeillion o Gellionen a'r Wig, ac ychydig o gyfeillion pellenig ereill. Dechreuwyd y Cyfarfod nos Fercher gan y Parch. J. H. Davies, Cefn; a phregethwyd yn Saesneg gan y Parch. George Evans, M.A., Caerfyrddin; ac yn Gymraeg gan y Parch. J. H. Davies. Afraid efallai yw dywedyd fod y ddwy bregeth yn ddysgedig a galluog.

Boreu dydd Iau, aethpwyd trwy y gwasanaeth defosiynol gan y Parch. W. James, B.A., Llandyssul, a phregethwyd yn Saesneg gan y Parch. George Evans. Testyn dwy bregeth Mr. Evans oedd "Llyfr Job." Nos Fercher, ceisiodd nodi allan mai nid hanes lythyrenol wir yw y Llyfr, ond math o draethawd barddonol ar Ragluniaeth Duw; a boreu dydd Iau cymmerodd i fyny y pwnc a gynnwysa, sef, "Paham y dyoddefa'r cyfiawn adfyd, tra y derbyn y drygionus hawddfyd." Dywedai, fod yr awdwr yn iawn yn ei ddeongliad mor bell ag y mae yn myn'd, fod yn rhaid i ninau addef fod "ffyrdd Duw yn anchwiliad-

wy ;"ond credai fod genym ni heddyw ychwaneg o oleuni ar y mater nag oedd gan yr awdwr, yn gymmaint ag y medrwn gredu mewn Anfarwoldeb, ac y bydd pethau sydd yn awr yn dywyll gael eu gwneyd yn eglur etto. Yr oedd y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, wedi cael ei bennodi i draddodi *y bregeth*, ond yn anffodus bu yn analluog i fod yn bresenol o herwydd afiechyd yn y teulu; yn ei absenoldeb ymgymmerodd y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn garedig a'r gorchwyl yn ei le. Cafwyd pregeth dda (rhanol yn esboniadol a rhanol yn ymarferol) oddiwrth Phil. ii., 12 a 13. Ni chynnygiwn roddi crynodeb o honi, gan y teimlwn nas gallem wneyd cyfiawnder â hi mewn gofod fychan.

Cytunwyd fod y Cyfarfodydd nesaf i gael eu cynnal yn Dowlais, a'r Parch. W. James, B.A., i bregethu *y bregeth;* ni phennodwyd "pwnc" y Gynnadledd, na phwy sydd i ddarllen y papyr.

Yn y prydnawn, darllenwyd a gweddiwyd gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar; ac ar ol hyny cynnaliwyd y Gynnadledd. Y pwnc oedd "Eglwys y Dyfodol." Dysgwylid y buasai'r Parch. W. James, yn darllen y papyr, ond teimlai yn analluog i wneuthur hyny o herwydd ei anhwyldeb; bu y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, mor garedig ag agor yn ei le. Barnai Mr. Lloyd na fydd i "Eglwys y Dyfodol" gredu yr athrawiaethau hyny a elwir "iawnffyddol," megys "Personoliaeth y Diafol," "Poenau Tragwyddol," yr "Iawn," &c. Credai y daw'r amser pan na fydd i ddynion i ddal syniadau annghysson a chymmeriad Duw fel Duw'r Cariad a Thad Nefol. Y Parch. George Evans a gredai y bydd i "Eglwys y Dyfodol" dalu rhagor o sylw i addysgiadau Gwyddor (*Science*) nag a wneir heddyw, ac na fydd y Bibl yn cael ei gyfrif fel awdurdod ar faterion perthynol i "Greadigaeth y byd" a'r cyffelyb. Yn ei farn ef bydd crefydd yn cael ei ystyried yn y dyfodol fel yn gynnwysedig mewn "cariad tuag at Dduw â dyn." Y Parch. J. H. Davies a sylwai fod duwinyddiaeth yn cyfnewid o oes i oes, ond fod crefydd fyth yn aros yr un, ac y bydd i grefydd i ddal ei thir a chael ei pharchu fwy a mwy fel bo'r oesau yn myn'd rhag eu blaen, er y dichon gorfod o dduwinyddiaeth fyned drwy amryw gyfnewidiadau. Y Parch. J. Davies a gredai y daw'r amser pan y bydd i ddynion i gredu egwyddorion syml Cristionogaeth, gredu mewn un Duw, y Tad, ac un Blaenor Ysprydol, Iesu Grist; er fod Pabyddiaeth ar un llaw, ac *Infideliaeth* ar y llaw arall, yn ymddangos heddyw fel yn gallu gorchfygu bron y gwirioneddau syml yma. Y Parch. W. James a ddywedai, y bydd i "Eglwys y Dyfodol" gredu yn y "gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir," na chynnygir hanner cuddio y gwirionedd, ac y bydd i grefydd gael ei phregethu fel *cymmeriad* ac nid fel *credo*. Y Parch. J. Evans, Gellionen, a fethai weled y bydd i "*undeb*-barn" gymmeryd lle yn y dyfodol yn fwy nâ heddyw; dywedai fod "sectau" ar gynnydd, ac nad oes genym unrhyw reswm dros gredu y bydd yn y dyfodol ryw "Eglwys fawr gyffredinol," yn yr hon y bydd pawb dynion yn foddlon aros. Ni chwenychai y Parch. R. J. Jones weled "undeb barn" yn y dyfodol ddim mwy na heddyw; credai fod gwahaniaeth barn yn "iachus" ac o ewyllys Duw; ni chwynai y "sectau" ond yr yspryd sectol; carai wel'd yr amser yn dyfod pan y bydd i ddynion i gyduno i gredu

mewn Duw fel Tad, yn Nghrist fel Brawd a Blaenor Ysprydol, ac mewn Nefoedd fel cartref i bawb yn y diwedd, a chytuno i wahaniaethu pan na fyddo eu cydwybodau yn caniatau iddynt i weled yn llygad yn llygad.

Nos Iau, aethpwyd trwy y gwasanaeth defosiynol gan y Parch. J. Davies, yn alluog iawn fel arfer, (yr oedd ei weddi yn hynod o fawreddog). Pregethwyd yn Saesneg gan y Parch. R. J. Jones. Appeliai yn effeithiol at y bobl ieuainc i fod o du Rhinwedd a Dyledswydd, i amcanu yn uchel ac ymdrechu dadblygu yr holl ddyn—y corfforol, deallol, moesol, ac ysprydol. Yna terfynwyd y Cyfarfodydd llwyddianus yma yn addasol iawn drwy appel gwresog gan y Parch. J. Evans, i fod yn "offro ac yn ddiwyd yn ngwinllan Duw."

Y farn gyffredin yw, fod yr oll o'r Cyfarfodydd yma wedi bod yn llwyddianus iawn, a'r Gymnadledd efallai yn fwy na'r cyffredin felly. Yr oedd yr Emynau a'r Tonau wedi cael eu dethol yn mlaen llaw, a thrwy hyny sicrhawyd canu da. Teimlai y cyfeillion yn Nottais yn ddiolchgar i'r gweinidogion am eu gwasanaeth, ac i'r cyfeillion pellenig am eu presenoldeb. W.P.

NODYNAU GWASGAROG.

Mae gan *Giraldus Cambrensis* destyn da yn yr ysgrif a ddanfonodd atom, sef "Yr Ysgolfeistr." Credwn yn gryf yn y testyn, ond gyda phob tynerwch dymunwn awgrymu fod y driniaeth o'r testun yn cael ei nodweddu gan ddau neu dri o ddiffygion ag ydynt hytrach yn ei anaddasu at dudalenau yr Ymofynydd. (1) Mae yn dwyn arwyddion amlwg fod yr ysgrifell yn cael ei gyru dan ddylanwad ysbryd wedi ei gynhyrfu yn ormodol (2) ac yn debyg iawn fel canlyniad i hyny, mae yn yr ysgrif ormod o Saesneg. (3) Mae yr awdwr, er wedi taro ar destyn rhagorol, wedi ei wneuthur yn rhy debyg i un o Chwedlau Esop, lle y gosodir y mynydd mewn gwewyr i esgor ar lygoden. Cynnwysiad yr ysgrif yw fod yr Ysgolfeistr yn ddyn pwysig ac y dylai gael gael ei barchu. Gobeithiwn y cymmer pawb o ddarllenwyr yr Ymofynydd yr awgrym, a chofio y dylid cyfeirio at yr Ysgolfeistr wrth ei enw priodol fel rhyw un arall. Carwn glywed etto oddiwrth Giraldus ar ryw bwnc o fudd a lles cyffredinol.

Deallwn fod Eglwys Rydd Ysgotland wedi anfon cynnrychiolydd i ddwyn croesawiad cynhes y cyfundeb i Germany ar adeg gwyl goffadwriaethol Luther, a bod geiriau o gydymdeimlad wedi eu hanfon gan Eglwysi Diwygiedig gwledydd ereill. Ond beth am Eglwys Loegr? Oes arwyddion fod rhyw beth ar fedr cael ei wneuthur ganddi hi. Cofier ein bod yn clywed weithiau mai Eglwys Loegr yw prif allu ein gwlad i gadw yn ol ddiluw Pabyddiaeth. Y ffaith debygwn yw, fod y berthynas yn rhy agos i ddim o'r fath i gael ei wneuthur. Pwy yw y rhai sydd yn barhaus yn pasio drosodd at Babyddiaeth! Nid aelodau yr Eglwysi Annghydffurfiol. Dim perygl am y rhai hyny. Pwy sydd

yn gwawdio Diwygiad mawr Luther, a'r Diwygwyr, a phrif feddyl-ddrychau y Diwygiad? Onid Offeiriaid Eglwys Loegr? Pwy sydd wedi dywedyd "y mae yn rhaid i ni ymwrthod â Phrotestaniaeth fel twyll a hudoliaeth?" Dr. Littledale, offeiriad yn Eglwys Loegr. Pwy sydd yn dywedyd "Duw a'n hamddiffyno rhag Protestaniaeth?" Y Parch. A. E. Wilmshurst, offeiriad arall. Pwy sydd yn galw prif ddiwygwyr Lloegr ac Ysgotland yn ddynion drwg (miscreants), eu gwaith yn ffieidd-dra (abomination), a'u coffadwriaeth yn wrthun (detestable)? Dr. Littledale, ac yn orfoleddus yn dywedyd fod Protestaniaeth "ar ei gwely angeu?" Dr. Wagner. A allwn ni ddysgwyl i ddynion fel hyn i ddangos cydymdeimlad a'r mudiad coffadwriaethol am Luther a'i waith? Dim, dim!

Yn y *Drych*, papyr Cymreig a gyhoeddir yn America, mae ysgrifenu mawr ac ysgrifenu gwresog yn bod ar Jones Llangollen a Brutus. Ceisia un ochr ddyrchafu Jones ar draul pardduo Brutus, a'r llall ddyrchafu Brutus ar draul pardduo Jones, ac felly ni lwyddir i wneyd yr un yn wyn. Llawer doethach fyddai cydnabod anmherffeithrwydd y ddau, a chofio fod llawer mewn cyssylltiad â hwy y byddai yn dda i'w coffadwriaeth pe gellid ei annghofio. Ysgrifenwyd llawer ar bob tu i Ddadl y Bedydd nad oedd yn llewyrchu dim ar gymmeriad Jones nâ Brutus.

Nid yw yn un clod i'r 19 canrif fod rhyw bumtheg cant wedi appleio am swydd Marwood, er cael yr anrhydedd anmheus o roi cilgwthiad olaf y ddaear i ddeiliaid y grogbren. Beth all fod natur cyfansoddiad yr adyn sydd yn awyddus am y fath swydd? Mae yn anmhossibl i ni gredu llai nad oes yn aros ynddo lawer o olion boreuol llwybr ei ddad-blygiad. Nis gall fod etto wedi cyrhaedd gradd uchel o ddynoliaeth. Carem weled gwaith y grogbren yn cael ei dori i lawr trwy yr holl wlad. Nid oes gan neb hawl i gymmeryd bywyd ond yr hwn a'i rhoddodd.

DYFYNIADAU ALLAN O'R "EFELYCHIAD O GRIST."

II.

Y Duw Byw.

Llefara, Arglwydd, canys y mae dy was yn clywed. Dy was Di ydwyf; dyro i mi ddealltwriaeth fel yr adnabyddwyf Dy dystiolaethau.

Gogwydda fy nghalon at eiriau dy enau; gad i'th leferydd ddyhidlo fel y gwlith.

Plant Israel a ddywedasant gynt wrth Moses, "Llefara di wrthym ni, a nyni a wrandawn; ond na lefared Duw wrthym, rhag i ni farw."

Nid felly, Arglwydd, nid felly yr wyf yn deisyf arnat Ti; ond yn hytrach gyda'r proffwyd Samuel yn ostyngedig a thaer ymbiliaf, "Llefara, Arglwydd, canys y mae dy was yn clywed."

Na ad i Moses na neb o'r proffwydi lefaru wrthyf, ond llefara Di, O Arglwydd Duw, Ysprydolwr a Goleuwr yr holl broffwydi; canys Ti yn unigol hebddynt hwy a elli fy hyfforddi'n berffaith, ond hebot Ti nis gallant hwy fuddio dim.

Hwy a allant seinio geiriau, ond nis gallant roddi yr Ysbryd.

Llefarant yn brydferth, ond os byddi Di yn ddystaw, nid ydynt yn tanio y galon.

Hwy a ddysgant y lythyrau, ond Ti a agori'r ystyr.

Hwy ddygant allan ddirgeledigaethau, ond Tydi sydd yn dadgloi ystyr pethau seliedig.

Hwy fynegant dy orchymynion, ond Tydi sydd yn ein cynnorthwyo i'w cyflawnu.

Hwy ddangosant y ffordd; ond Tydi sydd yn rhoddi'r nerth i rodio ynddi.

Ni allant hwy wneyd ond yr hyn sydd allanol, ond yr ydwyt Ti yn addysgu ac yn goleuo'r galon.

Hwy a ddyfrhant, ond Tydi sydd yn rhoddi'r ffrwythlondeb.

Hwy a waeddant yn uchel mewn geiriau, ond Tydi sydd yn cyfrannu dealldwriaeth i'r gwrandawyr.

Na ad, ynte, Moses lefaru wrthyf, ond Tydi, O Arglwydd fy Nuw, y Gwirionedd Tragwyddol; rhag i mi farw a phrofi yn anffrwythlon, os byddaf wedi rhybuddio yn unig yn allanol, ac heb fy enyniu yn dufewnol:—

Rhag y tros i fy nghollfarnuad, y gair a glybuwyd ac na gyflawnwyd, a wybuwyd ac na garwyd, a gredwyd ac na barchwyd.

Llefara Di, ynte, Arglwydd, canys mae dy was yn clywed; oblegyd genyt Ti y mae geiriau'r bywyd tragwyddol.

Llefara Di wrthyf er cysur i fy enaid, er gwellhad i fy holl fuchedd, ac er Dy glod, dy ogoniant, a'th anrhydedd tragwyddol.

W. B.

YR YMDRECH NEU Y GALLU SYDD YN LLWYDDO.

Mae'n gallu sydd yn llwyddo yn dechreu ymddangos fynychaf yn foreu mewn bywyd dyn. Hen ddywediad yw, fod y "plentyn yn dad y dyn," a dylai nodweddion goreu bywyd ieuanc gael eu cyfarwyddo a'u haddysgu yn y modd mwyaf doeth posibl. Mae'r hanesyn canlynol yn amlygu hyn yn nerthol iawn:—

"Oddeutu deg mlynedd ar ugain yn ol," meddai Judge P , "aethum i mewn i siop lyfrau yn Lerpwl i ymofyn am lyfrau oedd eisieu arnaf. Pan yno, daeth bachgenyn earpiog i'r siop i gemio am lyfr-daearyddiaeth (*geography*)."

"Faint a fynoch," atebai y siopwr.

"Beth yw eu gwerth?"

"Podwar swllt, fy mab."

"Nid oeddwn yn gwybod eu bod gymmaint."

Trodd i fyned allan, ac agorodd y drws, ond cauodd ef etto a daeth yn ol.

"Mae genyf dri swllt," meddai; "a fyddwch mor garedig a rhoi y llyfr i mi, ac aros dros ychydig am y swllt arall?"

Mor ddysglaer oedd ei lygaid pan yn dysgwyl yr ateb, ac O! fel y tynodd ato, fel pe byddai, pan wrthododd y siopwr. Edrychodd y plentyn siomedig i fyny ataf fi á gwên druenus ar ei wynebpryd wrth ymadael.

Dylynais ef. "Beth wnewch yn awr," gofynais iddo pan ddaethum i fyny ag ef.

"Treiaf ryw fan arall, syr."

"Caniatewch i mi fyned gyda chwi a gweled y modd y llwyddwch."

Ymwelsom á phedair siop, a chawsom siomedigaeth yn mhob un.

"A geisiwch chwi etto?"

"Gwnaf, syr; chwiliaf hwy i gyd, neu ni fyddaf yn gwybod pa un a allaf gael un ai peidio."

'Mhen ychydig, daethum i'r pumed siop, ac aeth y bachgenyn yn wrol yn mlaen a dywedodd yn gywir ei ddymuniad wrth y gwr o fewn i'r *counter*, a nifer y sylltau a feddai.

"A ydych yn chwennych y llyfr yn fawr?" gofynai y perchenog.

"Ydwyf, syr."

"Paham?"

"I'w ddysgu, syr. Ni allaf fyned i'r ysgol, ond yr wyf yn myfyrio wrthyf fy hun gartref, pan y gallaf. Mae y llyfr gan y bechgyn i gyd, a hwy a ant o fy mlaen i. Ac hefyd, yr oedd fy nhad yn forwr, ac mae chwant arnaf ddysgu am y lleoedd i ba rai yr oedd ef yn arfer myned."

"Wel, fachgen, fi ddyweda beth a wnaf á thi; ti gei y llyfr, a chai dalu y gweddill pan y galli, neu fe gai un sydd ddim yn hollol newydd am ddau swllt."

"A ydyw'r dail i gyd ynddo, a ydyw yn gwbl fel y rhai ereill, ond nid yn newydd?"

"Ydyw, yn gywir fel yr un newydd."

"Fe wnaiff yr un tro, ynte, ac fe fydd genyf swllt ar gyfer llyfr arall. Mor falch wyf, i mi gael fy siomi yn mhob man arall."

Y flwyddyn ddiweddaf acthum yn groes i'r Amerig ar fwrdd un o'r llongau mwyaf ardderchog a dramwyodd gefn yr Atlantic erioed. Bu y tywydd yn hyfryd o deg nes yn mron ar derfyn y daith, ac yna cyfarfyddasom ag ystorom ddychrynllyd, ac oni bai y cadben buasai pob un a phob peth wedi myned i'r gwaelod. Yr oedd pob *spar* wedi ei fwrw i lawr, a'r llyw bron yn ddiwerth, a'r dwfr yn llanw yn gyflym trwy dwll mawr yn ngwaelod y llong. Yr oedd dwylaw'r llong yn nerthol ac ewyllysgar a'r *mates* yn forwyr o'r gradd uwchaf; ond er defnyddio'r *pump* trwy y nos, cynnyddu wnaethai y dwfr, a rhoddasant i fyny mewn llwyr anobaith. Gosodwyd y badau yn barod, er gallasent wybod na wrthsafai yr un bad y fath dymhestl. Ar yr adeg hon daeth y cadben i fyny o fod wedi bod yn myfyrio'r *chart*. Gwelodd gyflwr pethau, a chyda llais ag oedd yn glywadwy trwy'r cwbl, erchodd

ar ei ddynion i fyned yn ol at ei *posts*. "Mi a'ch dodaf yn ddyogel yn y porth yn New York, ond i bob dyn wneyd ei eithaf a bod yn ddyn."

Efe a'n glaniodd yn ddyogel; ond suddodd y llong gyda'i bod wedi ei hangori. Safodd y cadben ar y *deck* pan yr oedd y dwfr yn raddol yn ei meistroli, safodd yn derbyn diolchgarwch a bendithion y teithwyr fel yr oeddynt yn pasio allan ar hyd y *plank*. Fel yr oeddwn i yn mynod heibio iddo cydiodd yn fy llaw a dywedodd, "Judge P——, a ydych yn fy adnabod?" Dywedais wrtho mai oeddwn yn cofio fod wedi ei weled o'r blaen nes ar fwrdd y llong. "A ydych yn cofio y bachgen hwnw yn Lerpwl?" "Yn eithaf da, ayr, William Haverly!" "Myfi yw," meddai, "a bendith Duw fyddo arnoch chwi." "A bendith Duw fyddo arnoch chwithau, Cadben Haverly!"

C. F.

"HYFFORDDA DY BLENTYN."

Hyffordda dy blentyn yn moreu ei oes,
I arfer geirwirodd, tangnefodd a moes;
A dylyn cyfiawnder, gonestrwydd, bob pryd,
Fel byddo'i dda rodiad yn brofiad i'r byd.

Hyffordda dy blentyn pan ddel of i ddweyd,
Pa beth fydd i siarad, pa beth fydd i wneyd;
Cyfoiria ei feddwl i fyw yn ddi wg,
A gwarchod arferiad gweithrediad plant drwg.

Hyffordda dy blentyn ar d'nelwyd fach glyd,
I 'mofyn gwybodaeth yn helaeth o hyd;
A rhodio'n ddibechod yn ngwyddfod ei Ddaw,
Bydd hyn i'w gysuro tra byddo fo byw.

Hyffordda dy blentyn i hwylio mewn pryd,
Ei lestr bach odiaeth ar fordaith y byd;
Y mor sydd yn berwi, erechwenu wna'r llyn,
Rhaid bod yn wybodus a threfnus pryd hyn.

Hyffordda dy blentyn i ddyfal barhau,
Heb golli'r un funyd, mae'r bywyd yn frau;
Doethineb y nefoedd ni welodd yn lawn,
I roddi 'ni wybod o'r cyfnod a gawn.

Hyffordda dy blentyn i gyrchu am gamp,
Drwy ganlyn yr Iesu a threwsio ei lamp;
A gwasgar tywyllwch sy'n toi o bob tu,
Fel caffo ddiangfa i'r noddfa wen fry.

Trebanos. H. MORGAN.

Manion a Hanesion.

MAE hen offeiriad yn byw yn Lupel yn Germany yn 108 mlwydd oed ac wedi bod 48ain yn yr offeiriadaeth.

ABERDAR.—Cynnaliwyd cwrdd tri-misol Ysgol Sul yr Hen-dy-Cwrdd Medi 30, pan y cafwyd cyfarfod braidd gwell nag arfer.

CAERDYDD.—Da genym ddeall fod pump o Undodiaid wedi llwyddo i enill *scholarships* neu *exhibitions* mewn cyssylltiad â'r Coleg newydd, sef Davies o Landyssul, Miss Mary Griffiths ac E. George o Aberdar, a dau Thomas o Ferthyr. Llwyddiant iddynt hwy a'r Coleg.—S.

ABERDAR.—Ar adeg priodas merch i Colonel Morgan o Gastell Ruperra, a nith i Arglwydd Tredegar, cafodd Mr. Thomas Lewis, y telynor dall, yr anrhydedd o chwareu y delyn, ac yn yr un wythnos cafodd yr anrhydedd o chwareu i barti o ryw 70ain yn Cefn Mabli, a'i bennodi yn delynor teulu Colonel Kemeys Tynte.

ABERTAWE. - Cynnaliwyd cylchwyl flynyddol y gynnulleidfa a chyfarfod diolch am y cynauaf Medi 30, pan y pregethodd Mr. Manning oddiwrth Pregethwr xii. 1.

DYSGWYLIR yn bryderus gan y Mohametaniaid y bydd i ddiwedd y byd gymmeryd lle Tachwedd 8fed.

AM ddeugain mlynedd bu Dr. Rigg yn rhyfela yn wrol ac yn gydwybodol yn erbyn dwyn offerynau cerddorol o un math i mewn i ganiadaeth y cyssegr yn Scotland. Mae bellach wedi marw. Amser a ddengys beth fydd y canlyniad. Y peth tebygol yw y ceir clywed swn yr organ neu yr harmonium yn fwy mynych nag erioed. *Cist o whistles* y galwai y Doctor hwy.

PRIODAS.—Cerwch eich gwraig fel eich hunan. Anrhydeddwch hi yn fwy nâ'ch hunan. Pwy bynag sydd yn byw heb briodi, mae'n byw heb fwynderau, heb gysur, heb fendith. Disgynwch ris yn newisiad gwraig. O bydd dy wraig yn fechan, ymgryma iddi a sisiala yn ei chlust. Yr hwn a gefno ar wraig ei ieuenctid, mae allor Duw yn wylo drosto. Mae'r hwn sydd yn gweled ei wraig yn marw o'i flaen, wedi bod yn bresenol, fel pe byddai, wrth ddinystr y cyssegr ei hunan; oddi amgylch iddo mae'r byd yn ymdywyllu. Menyw yn unig yw'r un trwy'r hon mae bendithion Duw yn cael eu cyfranu i dŷ. Mae'n dysgu'r plant, yn peri i'r gwr frysio i le addoliad ac addysg, yn ei roesawu pan ddychwelo, yn cadw'r tŷ yn dduwiol ac yn bur; ac y mae bendith Duw yn gorphwys ar y pethau hyn oll.—*O'r Talmud.*

Y DYFODOL.—Nis gallaf gredu mai y ddaear yw lle arosol dyn. Nid yw yn ddichonadwy fod ein bywyd wedi ei daflu i fyny gan fôr tragwyddoldeb i nofio am foment ar ei donau a suddo i ddiddymdra? Onide, paham mae y deheadau yma, a ymgodant megys angylion o deml ein calonau, o hyd ac o hyd yn crwydro oddi amgylch yn anfoddhaol? Paham mae yr enfys a'r cwmmwl yn dyfod drosom gyda phrydferthwch nad yw o'r ddaear, ac yna yn pasio ymaith, ac yn ein gadael i synfyfyrio ar eu tegwch diflanol? Paham mae y sêr a gynnaliant eu harwyl o amgylch gorsedd canolnos wedi eu gosod uwch gafael ein cynneddfau cyfyngedig, o hyd ac o hyd megys yn ein gwatwar â'u gogoniant anhygyrch? Ac yn ddiweddaf, paham y mae ffurfiau dysglaer prydferthwch dynol yn cael eu dwyn gerbron ein golygon, ac yna yn cael eu cymmeryd oddiwrthym, gan adael mil-ffrydiau ein serchiadau i ddylifo yn ol yn rhaiadrau Alpaidd ar ein calonau? Yr ydym wedi ein geni at dynged uwch nag eiddo'r ddaear; mae gwlad lle nad yw yr enfys byth yn diflanu, lle bydd y sêr byth o'n blaen, megys ynysigau bychain a hunant ar yr eigion, a lle bydd y bodau a basiant oddi ger ein bron megys cysgodau, yn aros yn ein presenoldeb byth ac yn dragywydd.—*Bulwer.*

DIRGELWCH gwir wynfydidigrwydd yw cymmeriad, nid sefyllfa; nid yw eich hapusrwydd yn gynnwysedig yn y sefyllfa ydych ynddi, ond yn yr hyn ydych.

YN mhlith y myfyrwyr a raddiwyd yn M.A. yn Mhrif Ysgol Durham yn ddiweddar oedd Cymro ieuanc, yr hwn bum mlynedd yn ol oedd yn ddim ond Cwarelwr yn Bethesda, ac heb allu siarad ond ychydig iawn o Seisneg, na gwybod dim braidd am elfenau dysgeidiaeth.

NID yw ond peth y gallem ddysgwyl fod y Parch. J. Lewis (Homo Ddu), Caerfyrddin, yn annghytuno ag Undodiaeth; ond credwn fod ei ben a'i galon yn gyfryw nas gallai fwriadu ei sylwadau yn Mhontfaen (Cowbridge) i fod yn anngharedig i Undodiaid, nad beth oeddynt.

GES neb o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD a gara estyn ei enw i lawr i'w olafiaid trwy

sefydlu ysgoloriaeth mewn cyssylltiad ag un o'r Colegau newyddion? Yn awr yw yr amser tra mae yr help yn brin. Beth pe caem "Jones Scholarship" neu "Pugh Scholarship" mewn cyssylltiad â'r Capelau Undodaidd.

NOTTAIS.—Cynnaliwyd yma gyfarfod diolchgarwch nos Lun, Hydref 15. Cymmerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. — Thomas (Methodist), Mr. James (Bedyddiwr), Mr. Titus Lloyd a'r Parch. W. Parry.

DYWEDIR fod peiriant wedi ei ddyfeisio i drosglwyddo y llun yn ogystal â'r llais. Carem weled rhai o'n capelau wedi eu cyssylltu â'u gilydd trwy y *telephone*.

YN ol y *Christian Life* y mae poblogaeth yr Ymherodraeth Brydeinig yn 315,000,000.

MAE siawns i gynnulleidfaoedd a ddewisant chwyddo ychydig ar gyflog eu gweinidog gael help yn awr oddiwrth y *Sustentation Fund*.

YN y cyfarfod a gynnaliwyd yn Mhontypridd Hydref 11eg, cyfeiriodd Arglwydd Aberdar at y ffaith o safle uchel Sir Aberteifi mewn cyssylltiad ag addysg, mewn cymhariaeth i siroedd ereill Cymru; fod 3 o bob 4 o fyfyrwyr Aberystwyth yn dyfod o'r Sir hono; a bod mwy o ddynion enwog wedi codi o honi nag o un sir arall; a dywedodd nad oedd yn gwybod sut i gyfrif am y ffaith. Ar adeg ymweliad Arglwydd Aberdar a'i gyd-ddirprwywyr â Merthyr yn 1880 mewn cyssylltiad â phwnc addysg, gwnaeth Proff. Rhys awgrymiad y carai hyspysrwydd am waith gweinidogion Undodaidd Cymru mewn cyssylltiad ag addysg yn y Sir hono; ond ni wnaeth *my lord* y pryd hwnw ond pwpwan yr awgrymiad, gan ddywedyd fod Dr. Vance Smith wedi bod o'u blaen yn Nghaerfyrddin. A pha beth y dysgwylir i hwnw wybod am ymdrechion cotau llwydion Sir Aberteifi i gyrhaedd addysg?

DYWED gohebydd un o bapyrau Ffrainc fod enw Shapira yn dwyn ar gof iddo enw Ananias. Shapira ddygodd i'r wlad yma gopi o lyfr Deuteronomium, yr hwn a ddarganfyddwyd gan rywun yn ngwlad Canaan; ond y mae Dr. Ginsburg wedi ei gondemnio fel *forgery* cywilyddus.

GWELSOM yn y cyfnodolion Seisnig fod y Parch. D. L. Evans, hen olygydd yr YMOFYNYDD, wedi coleddu syniadau y Christadelphiaid ac wedi ei fedyddio trwy drochiad. Cymmerodd hyny le Awst 6.

SUL, Hydref 7, cynnaliwyd cyfarfod dyddorol iawn yn y capel Undodaidd yn Leicester, sef cyfarfod pen can' mlwydd sefydliad yr Ysgol Sul yn y capel (1783). Mae amryw hen bobl yn ysgrifenu llythyron dyddorol yn adrodd eu cyssylltiad â'r ysgol. Medd un, "Yr oeddwn yn yr ysgol yn saith oed hyd nes oeddwn yn 14, ac yr wyf yn awr yn 70." Un arall a ddywed, "Yr oeddwn yn yr ysgol o Chwefror, 1821 hyd Mehefin, 1825."

DOWLAIS.—Cafwyd cyfarfod tê a chyngherdd llwyddiannus iawn dydd Iau, Hydref 4, pan y cyfranogodd dros 600 o'r danteithion darparedig.

FFORDD I ENILL GWG TAFARNWR.

Rho'th anian ar hunan elw,—na waria
Dy arian am gwrw;
Er da lwydd gwna ar dy lw,
Ochelyd mynych alw.

G. W.

FFORDD I ENILL EI WEN.

Un glasaid na wna esgeuluso,—a chofia
Fynych yfed ato;
Genyt bo'i gell a'i logell o,
'N anwylach nâ'r banc cynnilo.

G. W.

Marwgofion.

Gorphenaf 29, yn 78 oed, Mary Jones, Blaencwmmarch. Claddwyd hi y dydd Mawrth canlynol, yn unol â'i dymuniad, yn medd ei mab yn hen fynwent y Llwyn, lle y bu yn aelod am flynyddoedd lawer; ac hyd ag oedd yn bosibl byth yn esgeuluso ei chydgynnulliad. Pe gwnai pawb yn ein heglwysi ei hefelychu yn y peth hwn, cawsai un o ddiffygion ein henwad ei gyflawnu. Ar yr achlysur pregethodd y Parch. W. James, M.A.—*Edward Thomas.*

Awst 25, yn 71 oed, Thomas Smith

Wernfadog, ger Clydach, Dyffryn Tawe, wedi cystudd o ddeuddeg mlynedd. Treuliodd yr amser hwn yn bur ddirwgnach, gan ymfoddloni i'r drefn; teimlai yn flin a gofidus yn y blynyddau diweddaf ei fod yn peri cymmaint trafferth i'w wraig a'i deulu. Nid gormod dweyd iddo fod yn ffortunus iawn, gan iddo gyfarfod â'r fath afiechyd, o gael gwraig dyner a gofalus, yr hon a weinodd arno drwy'r blynyddau gyda thynerwch mam at ei phlentyn. Clywsom ef yn dywedyd lawer gwaith fod pethau yn hynod dda arno dan y fath amgylchiad, nas gallasai dim fod yn well, pawb o'r teulu yn barod i weini bob moment. Teimlai yn ddiolchgar am hyn. Ei ddolur, mwyaf tebyg, oedd darfyddiad o'r *Spine*; bu am flynyddau cyntaf ei gystudd yn alluog i fyned gylch y tŷ ac ar hyd y tir, er yn methu gwneuthur dim; ond trefnu ychydig. Cymmerodd *interest* neilldiol yn ystod ei fywyd mewn ffermwriaeth, a chydnabyddid ef fel ffermwr glew. Ni ddylynai yr hen ddull Cymreig, fel y dywedir, o drafod y tir; cynnygiai at hyny yn ngoleuni gwyddor; yr oedd yn *scientific farmer*. Er nad ydoedd wedi cael llawer o fanteision addysg yn moreu ei fywyd, etto yr oedd yn bur hyddysg mewn gwahanol wybodaethau. Yr oedd wedi talu gryn sylw i *Agricultural Chemistry*; a gwyddai'r ffordd i osod y wybodaeth hon i ateb y dyben iddo yn ymarferol. Yr oedd golwg ar ei fferm yn tystiolaethu hyn. Yr oedd o gynneddfau naturiol cryf; ac yn siaradwr ffraeth yn Gymraeg a Saesneg. Mewn gwleidyddiaeth yr oedd yn Rhyddfrydwr i'r eithaf; siaradai yn dda ar bynciau y dydd, pan yn ei gynnefinol iechyd. Yr oedd yn ddywenydd nid bychan i wrando'r hybarch Mr. James, Gellionen, ac yntau yn siarad ar bwnc o *bolitics*; yr oeddent ill dau mor ffraeth eu tafod, ac nid heb gryn dipyn o *wit*. Yr oedd gwreiddiolder yn eu hymddyddanion. Cyrchai yr ymadawedig am flynyddau i addoli i Gapel Gellionen. Dylynodd hyd nes methodd gan afiechyd. Yr oedd yn wir Undodwr; nid oedd gydag ef yr un cydymdeimlad ag athrawiaethau poblogaidd o gwbl. Yr oedd yn rhy oleuedig i'w coleddu, er wedi cael ei ddwyn fyny yn eu plith. Triniai bynciau crefydd fwy wrth reol yr *exact sciences*. Meddyliwn ei fod yn tueddu at yr *advanced school*, fel ei gelwir, gan ei fod yn barod iawn i ganmol pregethau Theodore Parker. Medrai siarad yn dda ar bwnc o dduwinyddiaeth; nid yn hawdd y buasai ef yn cael ei drechu mewn dadl.

Fel cymmydog yr oedd yn wir barchus yn ei ardal; yn ddyn tawel, esmwyth a pharod unrhyw amser i wneuthur cymmwynas i bawb. Dangoswyd hyn ar ddydd ei angladd. Nid yn aml gwelwyd y fath gynnulliad o bobl wedi dyfod at eu gilydd, rhai ar draed, rhai ar geffylau, ac ereill mewn llinyn hirfaith o gerbydau. Claddwyd ef yn mynwent Gellionen yn medd ei fab Llewelyn. Pregethodd y Parch. J. Evans ar yr achlysur. Gadawodd weddw a dau o blant, y rhai ydynt yn briod, i alaru ar ei ol. Heddwch i'w lwch hyd foreu'r codi.—*J.E.*

Hydref 5, yn 20 oed, ar ol hir nychdod, James Rees, Pontfach, ger Llandyssul. Yr oedd y dyn ieuanc hwn, ag mae ei haul wedi machlud mor fuan, yn un o ffyddloniaid yr Ysgol Sul a'r gynnulleidfa Undodaidd yn Llandyssul, a theimlir colled neilldiol ar ei ol yn mhlith y rhai a gydweithient ag ef yn yr achos da. Nawdd y nef a gobeithion yr efengyl fyddont yn amddiffyn i'w rieni a'i frodyr trallodus yn eu dygn brofedigaeth. Claddwyd y Llun canlynol yn mynwent Bethel, Capel y Wesleyaid, pryd, yn absenoldeb y Parch. W. James, y gweinyddodd y Parch. Thos. Thomas, Pantdefaid.

Hydref 16, W. Williams, Yswain, Cwmneol. Pe cawsai fyw hyd Rhagfyr 13eg, buasai yn 85 oed. Yr oedd yr hen wr yma wedi dal cyssylltiad hir â chynnulleidfa yr H.D.C. yn Aberdar, ac er mae anfynych yr oedd wedi gallu mynychu'r addoliad er ys llawer dydd, etto teimlir yno golled mawr a hiraeth ar ei ol. Yr oedd yn dod yn achlysurol, a bu yno un Sul yn ddiweddar iawn. Yr oedd yn gyfranwr haelionus at achosion yr enwad mewn gwahanol fanau, a da genym ddeall ei fod wedi gadael ar ei ol swm o arian at wasanaeth yr achos yn yr H.D.C. Efe yw y linc olaf yn cyssylltu yr H.D.C. â'r ganrif o'r blaen,—plant y ganrif bresenol yw y rhai ar ei ol. Pregethodd R.J.J. yn Nghwmneol, a chladdwyd yn y Cemetery.

Hydref 22, yn 72 oed, Edward Morgan, Mill Street, Aberdar. Er wedi ei anallugi i raddau er ys hir amser, yn dra disymwth y cwblhaodd ei daith yn y diwedd, canys yr oedd yn y cwrdd Sul y 14eg. Hen wr tawel a diniwed oedd Edward, a pharchus gan ei holl gydnabod. Gwasanaethwyd yn yr H.D.C. a chladdwyd yn y Gladdfa gyffredinol dydd Iau.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU:—J.J., Aberdare; E.D.H., Pentyrch; T.J., Alltyplaca; T.T., Merthyr Tydfil; W.G., Pontyberem.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
IVY COTTAGE,
ABERDARE.

EMYNAU MAWL A GWEDDI.

MAE yr ail argraffiad yn awr yn barod. Ei bris, 2s. mewn papyr, 2s. 6c. mewn llian. Anfonir ef yn rhydd trwy y post am y prisoedd hyn.

HEN DY CWRDD, ABERDAR.

Cynnelir Cwrdd Diolchgarwch Tachwedd 11eg. Oedfaon, 11 (Cwrdd Gweddi); 2 (Pregeth Gymraeg); 6 (Pregeth Saesneg). Casgliadau at "Flwch y Tlawd." D.S.—Cymmundeb yn yr hwyr.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD YN NGHYMRU.

MAE genym un dyn ieuanc yn parotoi i'r weinidogaeth yn awr, a rhy fach o arian mewn llaw i gyfarfod â'r taliad nesaf. Nid yw y gofyn ar ran un ddim yn llawer, pe gwnelai pob cynnulleidfa ychydig. Da chwi, gyfeillion, rhowch help llaw un waith etto. Anfoner at y Golygydd.

Mr. Titus Lloyd, Porthcawl	... ...	2s. 0d.
,, Thos. Jones, Alltyplaca	... ...	2 6
,, E. D. Howells, Pentyrch	... ...	5 0

CAPEL NEWYDD, LLANDYSSUL.

	£	s.	d.
Cydnabyddwyd eisioes.....	470	16	3
Jas. Hopgood, Clapham Common, Llundain	10	0	0
Mrs. R. Peyton, Edgbaston, Birmingham	5	0	0
Mrs. Filliter, Tunbridge Wells	2	2	0
Mr. D. Griffith, do.	3	3	0
Ed. Plummer, Glyncorrwg ..	1	1	0
Mrs. Thos. Thomas, Redland, Bristol	2	0	0
F. Nettlefold, Streatham, Llundain	10	0	0
C. M. Holland, Wrexham ..	2	0	0
J. Hill, Castleton, Rochdale..	0	10	0
Parch. J. Evans, Gellionen ..	1	0	0
Parch. W. Parry, Penybont..	0	10	0
Golygydd Yr Ymofynydd, Aberdar	2	2	0
W. Phillips, Newton Nottage	1	1	0
Miss Matthews, do.	0	2	0
W. J. Phillips, do.	0	2	6
Mrs. Matthews, "Picton," Porthcawl	0	2	6
Titus Lloyd, Porthcawl	0	7	0
Wm. Loughor, Lantwit	0	10	0
Henry Williams, Porthcawl..	0	5	0
W. Rathbone, M.P., Liverpool	20	0	0
Mrs. Scott, Broomfield, Stockport.....	5	0	0
Mr. Colfox, Bridport	2	2	0
Mrs. Colfox, do.	2	2	0
Mrs. Booth, Swinton	3	0	0
Mrs. Ed. Potter, Hatfield ..	2	2	0
Miss Holt, Liverpool	5	0	0
Miss Henry, Caton, nr. Lancaster	5	0	0
Miss Davis, Evesham	2	0	0
Philip Worsley, Llundain ..	2	2	0
Dr. Vance Smith, Carmarthen	2	2	0
Mrs. Jones, Rhydyfene, Llandyssul.....	0	5	0
Dienw. (Stampiau).....	0	1	5